*Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 189(2) o Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.*

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L   C Y M R U   D R A F F T

# 2026 Rhif

# ARDOLL YMWELWYR, CYMRU

## Rheoliadau Casglu a Rheoli Trethi (Costau Ardoll Ymwelwyr) (Cymru) 2026

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae adran 24A o Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdod Cyllid Cymru ("ACC") dalu enillion yr ardoll ymwelwyr i'r prif gyngor perthnasol ond dim ond ar ôl i ACC ddidynnu ei gostau a'i alldaliadau. Mae is-adran (5) yn rhoi i Weinidogion Cymru bŵer i wneud rheoliadau i wneud darpariaeth bellach ynghylch didynnu symiau mewn cysylltiad â'r costau a'r alldaliadau hynny.

Mae rheoliad 2 yn diffinio termau penodol a ddefnyddir yn y Rheoliadau hyn.

Mae rheoliad 3 yn darparu bod rhaid cyfyngu'r didyniad y mae ACC yn ei wneud mewn cysylltiad â'i gostau a'i alldaliadau i 10% o enillion yr ardoll ymwelwyr.

Mae rheoliad 4 yn darparu mecanwaith lle y mae'r swm canrannol y mae rhaid i ACC ei ddidynnu yn cael ei leihau os byddai didyniad o 10% o dan reoliad 3 yn arwain at ACC yn didynnu symiau mewn cysylltiad â chostau ac alldaliadau sy'n fwy na chyfanswm costau gweithredu ardoll ymwelwyr.

Ystyriwyd cod ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal asesiadau effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ ac mae wedi ei gyhoeddi ar www.llyw.cymru.

*Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 189(2) o Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.*

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L   C Y M R U   D R A F F T

# 2026 Rhif

# ARDOLL YMWELWYR, CYMRU

## Rheoliadau Casglu a Rheoli Trethi (Costau Ardoll Ymwelwyr) (Cymru) 2026

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *** |
| *Yn dod i rym* | *13 Chwefror 2026* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 24A(5)(a) a (b) o Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016([1]), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Yn unol ag adran 189(2) o'r Ddeddf honno, gosodwyd drafft o'r Rheoliadau hyn gerbron Senedd Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad([2]).

### Enwi a dod i rym

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Casglu a Rheoli Trethi (Costau Ardoll Ymwelwyr) (Cymru) 2026.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 13 Chwefror 2026.

### Dehongli

**2.** Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "ACC" ("*WRA*") yw Awdurdod Cyllid Cymru;

ystyr "costau gweithredu ardoll ymwelwyr" ("*visitor levy operating costs*") yw swm y costau a'r alldaliadau y mae ACC yn ystyried eu bod yn briodol o ran y costau y mae wedi mynd iddynt, a chostau y gall fynd iddynt ac alldaliadau a all ddod yn daladwy ar ôl iddo dalu enillion yr ardoll ymwelwyr i brif gyngor sy'n cymryd rhan, mewn cysylltiad ag arfer ei swyddogaethau yn ystod y flwyddyn ariannol honno mewn perthynas â'r ardoll ymwelwyr ar gyfer ardal prif gyngor sy'n cymryd rhan;

ystyr "cyfanswm costau gweithredu ardoll ymwelwyr" ("*total visitor levy operating costs*") yw swm y costau gweithredu ardoll ymwelwyr mewn cysylltiad â phob prif gyngor sy'n cymryd rhan;

ystyr "Deddf 2016" ("*the 2016 Act*") yw Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016;

---

(**1**) 2016 dccc 6. Mewnosodwyd adran 24A gan baragraff 25 o Ran 2 o Atodlen 2 i Ddeddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025 (dsc 5).

(**2**) Mae'r cyfeiriad yn adran 189(2) o Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 at Gynulliad Cenedlaethol Cymru bellach yn cael effaith fel cyfeiriad at Senedd Cymru yn rhinwedd adran 150A(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

ystyr “prif gyngor sy’n cymryd rhan” (“*participating principal council*”) yw cyngor ar gyfer sir neu fwrdeistref sirol yng Nghymru sydd wedi cyflwyno ardoll ymwelwyr o dan adran 48 o Ddeddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025(**3**).

**Didyniadau ar gyfer costau ac alldaliadau – terfyn o 10%**

**3.** Mewn cysylltiad â phob prif gyngor sy’n cymryd rhan, at ddiben adran 24A o Ddeddf 2016 ni chaiff ACC ddidynnu mwy na 10% o enillion yr ardoll ymwelwyr a gesglir ym mhob blwyddyn ariannol mewn cysylltiad â’i gostau a’i alldaliadau.

**Didyniadau ar gyfer costau ac alldaliadau – terfyn llai**

**4.** Os byddai’r didyniadau a wneir o dan reoliad 3 yn arwain at sefyllfa lle y mae cyfanswm yr holl ddidyniadau a wneir gan ACC ar gyfer pob prif gyngor sy’n cymryd rhan yn fwy na chyfanswm costau gweithredu ardoll ymwelwyr, yna rhaid i’r didyniad y mae ACC yn ei wneud gael ei leihau yn lle hynny i swm canrannol o enillion yr ardoll ymwelwyr sef—

(a) yr un didyniad canrannol ar gyfer pob prif gyngor sy’n cymryd rhan, a

(b) pan fo’r didyniad ar gyfer pob prif gyngor sy’n cymryd rhan yn gyfanredol, swm sydd yr un swm â chyfanswm costau gweithredu ardoll ymwelwyr.

*Enw*
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a’r Gymraeg, un o Weinidogion Cymru
Dyddiad [ ]

(**3**) 2025 dsc 5.